16 Awst 2010.

PROSIECT GWYRDD

PRESS RELEASE/ **DATGANIAD I'R WASG**

TROI PROBLEM YN ADNODD

SIOE DEITHIOL I'W CHYNNAL YM MHOB ARDAL AWDURDOD LLEOL

Mae Project Gwyrdd yn dal i drefnu sioeau gwybodaeth ym mhob awdurdod lleol, i godi ymwybyddiaeth am yr angen i greu seilwaith gwastraff i drin 'gwastraff gweddilliol', wedi i ni ailgylchu a chompostio gymaint â phosibl ym mhob ardal.

Yn sgil yr hysbyseb yn yr European Journal yn Nhachwedd 2009, bu llawer o ddiddordeb o'r proffesiwn ac mae 8 cwmni wedi cael eu gwahodd i gyflwyno 'datrysiadau amlinellol' i'r bartneriaeth.

Bydd y sioeau teithiol yn gyfle i'r cyhoedd ddysgu am y project a'r technolegau a allai fod ar gael i drin 'gwastraff gweddilliol', a bydd staff yno i ateb cwestiynau.

Bydd i sioeau teithiol yn digwydd rhwng 10am a 4pm ar y dyddiadau ac yn y llefydd canlynol.

Awst 24: Heol-y-Frenhines, Canol Dinas Caerdydd.
Awst 26: Y tu allan i'r Pier, Penarth, Bro Morgannwg.
Medi 2: Maes Parcio'r Farchnad Da Byw – Gwaelod Mono Street, Mynwy.
Medi 4: Maes parcio Twyn, Canol Tref Caerffili
Medi 7: Sgwâr John Frost – Canol Dinas Casnewydd.

Dywedodd y Cynghorydd Mark Stephens, Cadeirydd y Cyd Bwyllgor sy'n llywodraethu'r project: "Ers cychwyn y project, mae sioeau teithiol wedi cael eu cynnal yn ardaloedd y

(Mwy)

bartneriaeth er mwyn cyflwyno'r project i bobl a sicrhau bod arbenigwyr wrth law i ateb cwestiynau'r cyhoedd. Bydd y sioeau teithiol hyn yn parhau, wrth i'r broses gaffael ddatblygu. Bydd digwyddiadau pellach yn nes ymlaen yn y flwyddyn. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect hwn ewch i www.prosiectgwyrdd.co.uk".